# Papur y Porth

Rhifyn 21 Gorffennaf 2026

SLIDESMANIA.COM

# Croeso gan y Pennaeth



# Welcome from the Head

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol lwyddiannus arall, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad trwy gydol y flwyddyn. Mae wedi bod yn hyfryd gweld ein disgyblion yn datblygu eu sgiliau, magu hyder ac elwa ar yr holl gyfleoedd cyfoethog sydd wedi'u trefnu gan ein staff ymroddgar.

Hoffwn estyn ein dymuniadau gorau i Miss Ffion Gibbon, Miss Ellie Evans a Miss Sophie John wrth iddynt ddechrau pennod newydd yn eu gyrfaoedd mewn ysgolion eraill. Diolch iddynt am eu gwaith caled a'r profiadau gwerthfawr y maent wedi'u darparu i'n plant dros y blynyddoedd diwethaf. Eleni hefyd rydym yn ffarwelio â Mrs Janet Williams ar ôl mwy na 30 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn am eich ymroddiad, eich gofal a'ch cyfraniad arbennig dros y blynyddoedd. Dymunwn ymddeoliad hapus a haeddiannol iawn i chi.

Cofion cynnes a phob lwc i'n disgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Rydych wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol ac rydym yn hynod falch o'ch cyflawniadau. Edrychwn ymlaen at glywed am eich llwyddiannau yn y dyfodol.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i'r CRhA am eich hymdrechion diflino eleni. Trwy eu gwaith a'u cefnogaeth, rydym wedi gallu gwario dros **£9000** ar offer i'n disgyblion sydd mor werthfawr. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr bopeth a wnânt dros ein cymuned ysgol.

Yn olaf, dymunwn haf llawn hwyl i chi a'ch teuluoedd. Diolch am fod yn rhan mor bwysig o gymuned Parc y Tywyn ac am wneud y flwyddyn hon yn un mor arbennig. Mwynhewch y gwyliau haf, a gwelwn chi ym mis Medi.

# Croeso gan y Pennaeth



# Welcome from the Head

As we reach the end of another successful school year, I would like to sincerely thank you all for your continued support and cooperation throughout the year. It has been wonderful to see our pupils develop their skills, grow in confidence, and benefit from the wide range of enriching opportunities provided by our dedicated staff.

I would also like to extend our very best wishes to Miss Ffion Gibbon, Miss Ellie Evans and Miss Sophie John as they begin new chapters in their careers at other schools. We thank them for their hard work and for the valuable experiences they have provided for our children over the years. This year, we also say farewell to Mrs Janet Williams after more than 30 years of dedicated service to the school. Thank you for your commitment, care and outstanding contribution over so many years. We wish you a very happy and well-deserved retirement.

Warm wishes and the very best of luck to our Year 6 pupils as they move on to secondary school. You have made a special contribution to school life, and we are incredibly proud of all you have achieved. We look forward to hearing about your future successes.

I would also like to express my sincere thanks to the PTA for their tireless efforts throughout the year. Through their hard work and support, we have bought over £9000 of ressources for pupils which has been invaluable in providing enriching experiences. We greatly appreciate everything they do for our school community.

Finally, we wish you and your families a fun-filled and enjoyable summer. Thank you for being such an important part of the Parc y Tywyn community and for helping to make this year so special.Have a wonderful summer holiday, and we look forward to welcoming you back in September.

# Diogelu Safeguarding

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, mae diogelwch a lles pob plentyn wrth galon popeth a wnawn. Mae pob aelod o staff, llywodraethwr a gwirfoddolwr yn rhannu cyfrifoldeb dros ddiogelu, ac mae unrhyw bryderon yn cael eu cofnodi a'u dilyn yn brydlon gan ein tîm diogelu dynodedig. Rydym yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn ffynnu.

At Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, the safety and wellbeing of every child is at the heart of everything we do. All staff, governors and volunteers share responsibility for safeguarding, and any concerns are recorded and followed up promptly by our designated safeguarding team. We work closely with families and external agencies to ensure that every child receives the care and support they need to thrive

https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/diogelu-safeguarding/

SLIDESMANIA.COM

## Swyddogion Diogelu'r Ysgol
## School Safeguarding Officers



**Mrs Angharad Williams**
Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Designated Safeguarding Officer



**Mrs Elin Zych**
Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Parc y Tywyn
Deputy Designated Safeguarding Officer

Os oes gennych unrhyw gonsyrn am ddiogelwch disgybl, cysylltwch â'r staff hyn yn syth.

If you have any concerns regarding a pupil's safety, contact these staff immediately.



Yn absenoldeb y ddwy uchod, chysylltwch â:

If neither of the above are available, please contact:

**Miss A.Griffiths**



Cadeirydd y Llywodraethwyr â chyfrifoldeb am ddiogelu:

Governor with responsibility for safeguarding: **Mr Mathew Davies**

DaviesM1926@Hwbcymru.net

*Os hoffech wneud cwyn am unrhyw aelod o staff, cysylltwch a'r Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr.*

If you wish to make a complaint against any member of staff, contact the Headteacher or the Chair of Governors

### Manylion cyswllt defnyddiol / Useful contact details

* Tim Atgyfeirio Canolog Ty Elwyn:
  Central Referral Team: 01554 742322
* E-bost/ E-mail:
  CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

- Tu allan i Oriau Swyddfa
  Out of Office Hours : : 0300 333 2222

*Uwch Weithiwr Cymdeithasol: Ysgolion
Senior Social Worker: Schools
* Rebecca Thomas: 01554 742369 / 07976466399
* Carmarthenshire Local Safeguarding Children's Board 01267 246544

* NSPCC Helpline – 0800 800 500
* Dyfed Powys Police – 101

**Mae diogelu yn fusnes i bawb!**

**Safeguarding is everybody's business!**

PRESENOLDEB

yr Ysgol

BODDHAOL

93.17%


The school

ATTENDANCE

SATISFACTORY

## MAE POB DIWRNOD YN CYFRI | EVERY DAY COUNTS

### Y Darlun Mawr | The Big Picture




**Effaith Gwyliau Pythefnos | The Impact of a Two-Week Holiday**

Gall cymryd gwyliau pythefnos yn ystod y tymor olygu mai'r presenoldeb uchaf y gall plentyn ei gyflawni yw 94.5% yn unig.

Taking a two-week holiday during term time means the highest attendance a child can possibly achieve is only 94.5%.

### Dadansoddiad o Bresenoldeb | Attendance Breakdown

| Presenoldeb<br>Attendance % | Diwrnodau i Ffwrdd<br>Days Off | Oriau Dysgu a Gollwyd<br>Hours of Learning Lost | Statws<br>Status |
|---|---|---|---|
| 100% | 0 diwrnod<br>0 days | 0 awr<br>0 hours | RHAGOROL<br>EXCELLENT |
| 98% | 4 diwrnod<br>4 days | 20 awr<br>20 hours | DA IAWN<br>VERY GOOD |
| 96% | 8 diwrnod<br>8 days | 40 awr<br>40 hours | DA<br>GOOD |
| 95% | 10 diwrnod<br>10 days | 50 awr<br>50 hours | DA<br>GOOD |
| 94% | 12 diwrnod (Hanner Tymor)<br>12 days (Half Term) | 60 awr<br>60 hours | ACHOS PRYDER<br>CAUSE FOR CONCERN |
| 90% | 19 diwrnod (Tua 1 Mis)<br>18 days (Approx. 1 Month) | 95 awr<br>95 hours | PRYDER SYLWEDDOL<br>SIGNIFICANT CONCERN |
| 80% neu is<br>80% or lower | 38 diwrnod (Tua 2 Fis)<br>38 days (Approx. 2 Months) | 190 awr<br>190 hours | PRYDER DIFRIFOL<br>SERIOUS CONCERN |

### Y Gair Olaf | The Final Word

**Mae Pob Diwrnod Ysgol yn Cyfri | Every School Day Matters**

Mae presenoldeb o dan 95% yn golygu bod amser dysgu gwerthfawr yn cael ei golli, gan ei gwneud hi'n anoddach i ddisgyblion gyflawni eu llawn botensial.

Attendance below 95% means valuable learning time is lost, making it harder for puplls to achieve their full potential.

NotebookLM

## Presenoldeb Attendance

Pob disgybl, ar amse r, pob dydd..

Every student, on time, every day

SLIDESMANIA.COM

# Diogelwch dros yr Haf/ Safeguarding during the Summer




https://rnli.org/water-safety/beach-safety

SLIDESMANIA.COM

# CRhA/PTA

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'n CRhA gwych am eu gwaith diflino a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn. Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r arian a godwyd, ac fel ysgol, ni allem fod yn fwy diolchgar am bopeth rydych yn ei wneud.
Diolch yn fawr hefyd i'n holl rieni a theuluoedd am eich cefnogaeth barhaus ym mhob digwyddiad a gweithgaredd codi arian. Rydym yn falch iawn o rannu bod **£2,200** anhygoel wedi'i godi yn ein Ffair Haf ddiweddar – camp arbennig! Diolch i chi gyd am helpu i wneud gwahaniaeth mor gadarnhaol i gymuned ein hysgol.

We would like to take this opportunity to thank our wonderful PTA for their tireless work and dedication throughout the year. The children have benefited greatly from the money that has been raised, and as a school, we couldn't be more grateful for all that you do.
A huge thank you also goes to all of our parents and families for your continued support at every event and fundraiser. We are delighted to share that an incredible **£2,200** was raised at our recent Summer Fayre – an amazing achievement! Thank you for helping to make such a positive difference to our school community.

SLIDESMANIA.COM

# Rhai o archebion arbennig o gronfa'r CRhA eleni / Some of the puchased from the PTA fund year



**£2500**

Ar adnoddau newydd I bob dosbarth Dysgu Sylfaen
New resources for all Foundation Phase classes

**£4000**

Cysgodfan newydd i'r Adran Iau gwerth dros £9000.
New Key Stage 2 Shelter contribution total cost £9000






















**£3000**


X 5 cysgodfanau tawel
X5 quiet wooden shelters

SLIDESMANIA.COM

# Meithrin

Mae plant y Meithrin wedi mwynhau dysgu am gylch bywyd y pili-pala y tymor hwn. Y sbardun ar gyfer y dysgu oedd y llyfr poblogaidd '*Y Lindysyn Llwglyd Iawn*'. Cafodd y plant gyfle gwych i arsylwi lindys byw wrth iddynt ddatblygu a thyfu drwy wahanol gamau eu cylch bywyd. Roedd yn gyffrous gweld y lindys yn newid o lindys bach i mewn i gocwn, ac yna ymddangos fel pili-palod prydferth a lliwgar. Bu'r profiad hwn yn ffordd wych o ddatblygu chwilfrydedd y plant am fyd natur ac i ddeall sut mae pethau byw yn tyfu ac yn newid dros amser.

The Nursery children have enjoyed learning about the life cycle of the butterfly this term. The trigger for the learning was the popular book 'The Very Hungry Caterpillar'. The children had a great opportunity to observe live caterpillars as they develop and grow through the different stages of their life cycle. It was exciting to see the caterpillars change from little caterpillars into cocoons and then appear as beautiful and colorful butterflies. This experience was a great way to develop the children's curiosity about the natural world and to understand how living things grow and change over time.








SLIDESMANIA.COM

# Meithrin / Derbyn



Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol arbennig arall, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Mae wedi bod yn dymor prysur a chyffrous, yn llawn profiadau cofiadwy. Mwynhaodd y plant wylio ein lindys yn tyfu'n pili palas cyn eu rhyddhau yng ngardd yr ysgol. Cawsom ddiwrnod mabolgampau llawn hwyl, gwnaethom grefftau ar gyfer Ffair yr Haf, a gorffen ein thema **'Byw yn y Baw'** gyda diwrnod gwisgo lan a disgo yn yr awyr agored. Rydym hefyd wedi gwneud y mwyaf o'r tywydd braf drwy dreulio llawer o amser yn dysgu ac yn chwarae yn yr awyr agored. Mae wedi bod yn bleser mawr gweld y plant yn tyfu mewn hyder, annibyniaeth a chwilfrydedd drwy gydol y flwyddyn. Maent wedi gweithio'n galed iawn, wedi cael llawer o hwyl, ac wedi creu nifer o atgofion hapus gyda'i gilydd. Gobeithio y cewch chi gyd wyliau haf bendigedig, diogel ac ymlaciol, a hoffwn ddymuno pob lwc i'r plant wrth iddyn nhw symud i'r derbyn a blwyddyn 1.

As we come to the end of another wonderful school year, I would like to thank you for your continued support. It has been a busy and exciting term, full of memorable experiences. The children loved watching our caterpillars grow into beautiful butterflies before releasing them into the school garden. We enjoyed taking part in Sports Day, creating crafts for the Summer Fair, and finishing our **'Living in the Soil (Byw yn y Baw)'** theme with a fantastic dressing-up day and outdoor disco. We have also made the most of the lovely weather by spending lots of time learning and playing outdoors. It has been a real pleasure to watch the children grow in confidence, independence and curiosity throughout the year. They have all worked so hard, had lots of fun, and created many happy memories together. I hope you all have a wonderful, safe and relaxing summer holiday, and I wish the children all the best as they move to Derbyn and year 1.

SLIDESMANIA.COM

# Derbyn a Blwyddyn 1

Wrth inni gyrraedd diwedd y flwyddyn ysgol, rydym wedi bod yn myfyrio ar flwyddyn arbennig iawn yn Nosbarth Derbyn/Blwyddyn 1. Mae wedi bod yn flwyddyn llawn chwerthin, chwarae, dysgu a hwyl. Mae'r plant wedi mwynhau llawer o brofiadau gwych drwy ein themâu amrywiol ac wedi tyfu mewn hyder, annibyniaeth a chyfeillgarwch drwy gydol y flwyddyn. Gorffennwyd ein blwyddyn wych gyda'n Diwrnod Hwyl, gan ddathlu ein dysgu gyda'n gilydd. Pa ffordd arbennig o orffen y flwyddyn – yn mwynhau chwarae dŵr, gwneud salad ffrwythau, chwythu swigod a chreu crefftau. Diolch yn fawr i'n rhieni gwych am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae eich anogaeth a'ch partneriaeth yn golygu cymaint i ni.









As we come to the end of another school year, we have been reflecting on what a fabulous year it has been in Reception/Year 1. It has been a year full of laughter, play, learning and fun.

The children have enjoyed many wonderful experiences through our varied themes and have grown in confidence, independence and friendships throughout the year. We finished our fantastic year with our Fun Day, celebrating all of our learning together. What a wonderful way to end the year – enjoying water play, making fruit salad, blowing bubbles and creating crafts.

Thank you to all of our wonderful parents for your support throughout the year. Your encouragement and partnership mean so much to us. We wish you all a lovely, relaxing summer and look forward to seeing you again in September

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 1

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn arbennig ym Mlwyddyn 1, hoffem edrych yn ôl ar hanner tymor olaf llawn hwyl, dysgu a phrofiadau newydd. Bu'r plant yn tyfu mefus yn yr ardd ac yn defnyddio'r hyn a ddysgon nhw i greu podlediad gwych yn rhannu eu ffeithiau. Cawsant hefyd gyfle i ddefnyddio peiriant gwnïo i greu eu crefftau mefus ar gyfer Ffair yr Haf, ac roeddent yn falch iawn o'u gwaith.

Bu digon o gyfleoedd i fod yn egnïol hefyd, gan gymryd rhan yn y mabolgampau, sesiwn Zumba hwyliog a gwneud y mwyaf o'r tywydd braf yn yr ardd, gyda llawer o weithgareddau dŵr i gadw'n oer. Daeth y flwyddyn i ben gyda dathliad arbennig yn addurno bisgedi, chwarae gyda swigod a mwynhau disgo awyr agored.

Diolch o galon i bob rhiant a theulu am eich cefnogaeth, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn. Mae wedi bod yn fraint cael gweithio gyda'ch plant.

Pob lwc i holl blant Blwyddyn 1 wrth iddynt ddechrau eu taith ym Mlwyddyn 2. Mwynhewch wyliau'r haf a phob hwyl yn y bennod nesaf!



As we come to the end of a fantastic year in Year 1, we would like to reflect on a wonderful final half term. The children have loved growing their own strawberries before creating podcasts to share everything they had learned. They were also very proud to use a sewing machine to make their strawberry crafts for the Summer Fair.

This half term has been full of exciting experiences, including taking part in our school mabolgampau, enjoying a fun Zumba session and making the most of the sunny weather with lots of learning and water play in our garden. We finished the year with biscuit decorating, bubbles and an outdoor disco . What a brilliant way to celebrate together.

A huge thank you to all of our parents and families for your continued support and kindness throughout the year. It has been greatly appreciated. It has been a privilege to work with your children this year.

Finally, we wish all of our wonderful Year 1 children every success and happiness as they begin their Year 2 journey. Have a fantastic summer!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 2



Mae Blwyddyn 2 wedi mwynhau dysgu am gylchoedd bywyd yn fawr yr hanner tymor hwn, yn enwedig gwylio ein lindys bach yn tyfu i mewn i pili pala hardd. Roedd y plant wrth eu bodd yn arsylwi'r newidiadau bob dydd ac yn dysgu am wahanol gamau'r cylch bywyd.

Gwnaethom hefyd weithio'n galed i greu bwystfilod bach lliwgar o glai i'w gwerthu yn y Ffair Haf, gan ddangos creadigrwydd a gofal gwych yn ein gwaith. I orffen ein pwnc, fe wnaethom fwynhau diwrnod gwisgo i fyny hwyliog a gwneud amrywiaeth o grefftau bwystfilod bach yn gysylltiedig â'n dysgu. Mae wedi bod yn ddiwedd prysur a phleserus i'r flwyddyn, ac rydym yn falch iawn o bopeth y mae'r plant wedi'i gyflawni.

Rydym wedi cymryd rhan mewn a mwynhau sesiynau Diogelwch y ffordd gyda KerbCraft.

Diolch i'n holl deuluoedd am eich cefnogaeth barhaus drwy gydol y flwyddyn. Dymunwn wyliau haf hyfryd, ymlaciol i chi gyd ac edrychwn ymlaen at weld y plant yn parhau i ffynnu ym Mlwyddyn 3.





Year 2 have really enjoyed learning about life cycles this half term, especially watching our tiny caterpillars grow into beautiful Painted Lady butterflies. The children loved observing the changes eachday and learning about the different stages of the life cycle.

We also worked hard to create colourful clay mini beasts to sell at the Summer Fair, showing great creativity and care in our work. To finish our topic, we enjoyed a fun dress-up day and made a range of mini beast crafts linked to our learning. It has been a busy and enjoyable end to the year, and we are very proud of everything the children have achieved.

We took part in and enjoyed road safety sessions with KerbCraft.

Thank you to all our families for your continued support throughout the year. We wish you all a wonderful, relaxing summer holiday and look forward to seeing the children continue to flourish in Year 3.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3



We are so proud of our pupils for their hard work and enthusiasm during their PBuzz lessons.  It was so wonderful to see them perform so confidently in front of their parents.

Da iawn i'n holl disgyblion am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn ystod eu gwers PBuzz! Roedd hi'n hyfryd eu gweld yn perfformio mor hyderus o flaen eu rhieni ac yn arddangos y cynnydd gwych maen nhw wedi'iwneud.  Diolch yn fawr i'r holl deuluoedd am eich cefnogaeth ac am ddod i ddathlu'r llwyddiant gyda ni!


SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3

Mae Blwyddyn 3 wedi manteisio ar y tywydd poeth drwy fynd â'u dysgu am ffracsiynau i'r twba ddwr! Gan ddefnyddio dŵr a jygiau mesur, bu'r plant yn archwilio haneri a chwarteri drwy waith cynhwysedd. Fe wnaethant ddarganfod yn gyflym fod mathemateg yn llawer mwy adfywiol pan fo ychydig o dasgu dŵr ynghlwm wrthi! Yn ffodus, fe gyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r dŵr y cynwysyddion yn y diwedd, a gwnaeth y plant waith gwych yn adnabod ½ ac ¼ tra'n cadw'n oer yn yr heulwen. ☀️

Year 3 have been making the most of the hot weather by taking their fraction learning to the water tray! Using water and measuring jugs, the children explored halves and quarters through capacity. They quickly discovered that maths can be quite refreshing when it involves splashing water around! Luckily, most of the water made it into the containers (eventually!), and the children did a fantastic job finding ½ and ¼ while staying cool in the sunshine.








SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 4

Cawsom lawer o hwyl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Masnach Deg. Dysgodd y plant sut i blotio gwledydd sy'n allforio cynnyrch Masnach Deg ar fap o'r byd, dylunio pamffled gwybodaeth, creu sudd lemwn gan ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg a chreu *collage* o'r logo gan ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg.















We had great fun taking part in Fairtrade activities. The children learned how to locate and plot countries that export Fairtrade products on a world map, design an information leaflet, make lemonade using Fairtrade products and create a *collage* of the Fairtrade logo using Fairtrade items.

SLIDESMANIA.COM

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Blwyddyn 4




**Diolch i grant o £1,498.50 gan Gyngor Celfyddydau Cymru**, cawsom gyfle i weithio gyda chwmni CISP Multimedia ar brosiect animeiddio creadigol. Nod y grant oedd rhoi cyfle i ni ddatblygu sgiliau animeiddio, adrodd straeon gweledol a mynegi ein syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Buom yn cymryd rhan mewn gweithdai gyda Cisp lle dysgom sut i animeiddio a throsleisio, gan weithio gyda gweithwyr creadigol proffesiynol.

Gwnaethom ffilm am hanes Amelia Earhart, yr Americanwraig enwog a laniodd fel teithiwr ar yr awyren *Friendship* ym Mhorth Tywyn. Mae cofeb ym Mhorth Tywyn i gofio amdani. Hi oedd y fenyw gyntaf i hedfan dros Gefnfor Iwerydd, ac yn 1932 daeth yn y fenyw gyntaf i hedfan ar ei phen ei hun dros Gefnfor Iwerydd.

Roedd y prosiect yn gyfle gwych i ddysgu sgiliau newydd, datblygu ein hyder a dathlu hanes arbennig Porth Tywyn.

**Gwyliwch ein ffilm am hanes arbennig Porth Tywyn!**




Thanks to a **£1,498.50 grant from the Arts Council of Wales**, we had the opportunity to work with **CISP Multimedia** on a creative animation project. The aim of the grant was to give us the chance to develop our animation skills, learn visual storytelling techniques, and express our ideas through the medium of Welsh. We took part in workshops with CISP, where we learned how to animate and record voice-overs while working alongside professional creative practitioners.

We created a film about the history of **Amelia Earhart**, the famous American aviator who landed in Burry Port as a passenger on the aircraft *Friendship*. There is a memorial in Burry Port in her honour. She was the first woman to fly across the Atlantic Ocean, and in 1932 she became the first woman to fly solo across the Atlantic.

The project was a fantastic opportunity to learn new skills, build our confidence, and celebrate the unique history of Burry Port.
**Watch our film about the remarkable history of Burry Port!**

# Y Cyngor Eco

MASNACH DEG

Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur yn hyrwyddo masnach deg ar draws yr ysgol yr hanner tymor hwn. Bu'r aelodau'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dewis cynnyrch Masnach Deg ac yn annog eraill i feddwl am sut gall ein dewisiadau wneud gwahaniaeth. Yn Ffair yr Haf, trefnwyd stondin raffl i ennill hamper Masnach Deg, a chafodd y plant y syniad gwych o gynnal gêm lle'r oedd ymwelwyr yn dyfalu nifer y pompomau mewn jar i ennill basged o siocled Masnach Deg. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i fod yn ysgol sy'n hyrwyddo Masnach Deg ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at ein hachrediad Ysgolion Eco.

Our Eco Council has been busy promoting Fairtrade across the school this half term. The children have worked hard to raise awareness of the importance of supporting Fairtrade producers and encouraging others to make ethical choices. At the Summer Fair, they ran a raffle to win a Fairtrade hamper and also came up with the fantastic idea of a "Guess the Number of Pom Poms" competition, where the winner received a Fairtrade chocolate hamper. These activities helped spread the Fairtrade message in a fun and engaging way throughout the school. Their hard work continues to support our commitment to being a Fairtrade School and plays an important role in maintaining our Eco-Schools accreditation.

SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Ysgol

O safbwynt y Cyngor Ysgol, rydym wedi bod yn brysur yn gweithio i wneud ein hysgol yn lle hyd yn oed yn well i bawb. Eleni, rydym wedi defnyddio arian i brynu adnoddau newydd ar gyfer disgyblion y Dysgu Sylfaen a'r Adran Iau, ac rydym yn falch o weld y plant yn eu mwynhau.

Wrth drafod syniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym wedi penderfynu y byddai sied allanol yn ddefnyddiol i'r Adran Iau er mwyn storio offer dysgu awyr agored yn ddiogel ac yn daclus. Rydym hefyd yn teimlo bod angen gwella diogelwch o amgylch y ffrâm ddringo, ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o osod wal ddringo o'i chwmpas.

Yn ogystal, rydym yn teimlo bod yr ysgol yn dechrau edrych ychydig yn flinedig, felly mae'r Cyngor Ysgol wedi gofyn a fyddai modd ailbeintio'r adeilad i'w wneud yn edrych yn fwy croesawgar a bywiog.

Rydym wrthi'n casglu rhagor o syniadau ac yn cynllunio gwelliannau pellach, felly cadwch lygad allan am y newidiadau cyffrous fydd yn digwydd yn ystod tymor yr Hydref.

Yn olaf, hoffem ddiolch yn fawr i bawb am y gefnogaeth mae'r Cyngor Ysgol yn ei derbyn, ac yn arbennig i Mrs Williams am wrando ar ein syniadau a'n helpu i'w gwireddu.

From the School Council's perspective, we have been busy working to make our school an even better place for everyone. This year, we have used our budget to purchase new resources for both the Foundation Learning and Junior Departments, and we are delighted to see the children enjoying them.

As we have discussed ideas for the future, we have decided that the Junior Department would benefit from an outdoor storage shed to keep outdoor learning equipment safe, organised and easily accessible. We also feel that the climbing frame could be made even safer, and we are exploring the possibility of adding a climbing wall around it.

In addition, we think parts of the school are beginning to look a little tired, so the School Council has suggested that the building could be repainted to make it look brighter and more welcoming.

We are continuing to gather ideas and plan further improvements, so keep an eye out for some exciting changes during the Autumn Term!

Finally, we would like to thank everyone for the support the School Council receives, and especially Mrs Williams for listening to our ideas and helping us to make them happen.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 5

Mae'r flwyddyn wedi bod yn llawn dop o brofiadau addysgol a difyr – o'n taith breswyl i Ganolfan Gweithgareddau Antur Llain, ein teithiau i'r traeth, digwyddiadau chwaraeon, sesiynau nofio a beicio, y daith i weld y sioe wych *Mary Poppins* yng Nghaerdydd, a'n teithiau heddychlon i'r llyfrgell.
Un o uchafbwyntiau diweddar y flwyddyn oedd y gystadleuaeth bowlio yr wythnos yma, lle cymerodd y dosbarth cyfan ran, mwynhau amser arbennig yng nghwmni aelodau'r clwb lleol ac ennill Tlws Moira Thomas. Mae'n fraint arbennig i'r ysgol dderbyn y tlws hwn, gan fod Mrs Moira Thomas, cyn-athrawes yn yr ysgol, yn dal lle mor arbennig yn ein calonnau.
Da iawn, Blwyddyn 5 – rwy'n falch iawn ohonoch chi!
Rydyn ni i gyd wedi chwerthin, dysgu a thyfu gyda'n gilydd eleni. Pob lwc i bawb wrth symud ymlaen i Flwyddyn 6 – rwy'n siŵr y byddwch yn gwneud yn wych!

**What a fantastic year we've had in Year 5!**
The year has been packed with fun and educational experiences – from our residential trip to Llain Outdoor Activity Centre, our visits to the beach, sporting events, swimming and cycling sessions, our trip to see the fantastic *Mary Poppins* show in Cardiff, and our peaceful visits to the library.
One of the highlights of the year was the bowling competition, where the whole class took part, enjoyed a wonderful time with members of the local bowling club and won the Moira Thomas Trophy. It is a special honour for the school to receive this trophy, as Mrs Moira Thomas, a former teacher at the school, continues to hold a very special place in our hearts. Well done, Year 5 – I am incredibly proud of you all!
We have all laughed, learned and grown together this year. Wishing everyone the very best as they move on to Year 6 – I'm sure you will all do brilliantly!











SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 6

**Blwyddyn 6,**
Wel am flwyddyn rydym wedi'i chael! Rydych wedi gweithio'n galed, dangos caredigrwydd, gwneud cynnydd arbennig, a chreu cymaint o atgofion gwych gyda'ch gilydd.
O her Pen y Fan, i hwyl Parc Gwledig Pen-bre, amser ar draeth Pentywyn, a'ch gwasanaeth gadael arbennig – mae pob profiad wedi bod yn rhan o daith fythgofiadwy.
Rydym yn hynod falch o bob un ohonoch. Diolch am eich brwdfrydedd, eich gwydnwch a'r ffordd rydych wedi cynrychioli'r ysgol mor dda.
Pob lwc wrth i chi gychwyn ar eich pennod nesaf. Mwynhewch bob cyfle newydd, credwch ynoch eich hunain, a pheidiwch byth ag anghofio'r atgofion arbennig a grëwyd yma.
Pob lwc a dymuniadau gorau i chi gyd!









**Year 6,**
What an amazing year we've had! You have all worked incredibly hard, shown kindness, made fantastic progress, and created so many wonderful memories together.
From the challenge of Pen y Fan, to the fun at Pembrey Country Park, our time at Pendine, and your special Leavers' Service, every experience has been part of an unforgettable journey.
We are so proud of every one of you. Thank you for your enthusiasm, resilience, and for representing our school so well.
Good luck as you begin the next chapter. Embrace every new opportunity, believe in yourselves, and never forget the special memories you've made here.
Best of luck to you all. we'll miss you, and we know you'll do amazing things!





SLIDESMANIA.COM



# Chwaraeon




Mae wedi bod yn dymor prysur a llwyddiannus iawn i chwaraeon yn yr ysgol. Cafodd pawb gyfle i gymryd rhan yn y Mabolgampau, gyda phawb yn dangos ymdrech wych, brwdfrydedd a chwarae teg. Wrth i ni ddathlu diwedd y flwyddyn ysgol, hoffem ddiolch yn fawr i'n Llysgenhadon Chwaraeon am eu gwaith caled yn trefnu gweithgareddau hwyliog ac egnïol i weddill yr ysgol drwy gydol y flwyddyn. Llongyfarchiadau hefyd i Flwyddyn 5 ar eu hymweliad â Bowls Porth Tywyn, lle cawsant ddiwrnod gwych ac ennill y gystadleuaeth. Da iawn bawb!

It has been a busy and successful term for sport at our school. Everyone had the opportunity to take part in our Sports Day, showing fantastic effort, enthusiasm and excellent sportsmanship. As we celebrate the end of the school year, we would like to say a huge thank you to our Sports Ambassadors for organising fun and engaging activities for the rest of the school throughout the year. Congratulations also to Year 5 on their visit to Porth Tywyn Bowls Club, where they enjoyed a fantastic day and won the competition. Well done to everyone!















SLIDESMANIA.COM